




Cam 1 Cynllun Lliniaru Llifogydd Treorci

Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb i 92 eiddo yn ardal Treorci.

Crynodeb o'r Cynllun	
Ardal Strategol Perygl Llifogydd	Cwm Rhondda Fawr Uchaf
Canolfan/Swyddfa	Ffordd y Fynwent, Treorci
Eiddo sy'n elwa	92 eiddo
Math o Gynllun	Gwelliannau mewnfa cilfach
Cost	£530,000
Contractwr	Peter Simmons Construction
Statws	Wedi cwblhau
Dyddiad Cwblhau Cynllun	2023
Ffynhonnell Ariannu	Grant Cyfalaf Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru



Gwelliannau cwlfertau wedi'u cynnal yn rhan o Gam 1 Cynllun Lliniaru Llifogydd Treorci

Cefndir y Cynllun

Mae Treorci wedi'i nodi fel ardal o risg llifogydd dŵr wyneb uchel a chyrsiau dŵr cyffredin yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru (FRAW) Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae wedi'i osod ar **safe 3 yng Nghymru** ar gyfer perygl llifogydd dŵr wyneb a chwrs dŵr cyffredin ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR).

Mae Treorci wedi wynebu sawl digwyddiad llifogydd dros y blynyddoedd diwethaf. Digwyddodd y digwyddiad mwyaf arwyddocaol ar 15ac 16Chwefror 2020 yn dilyn Storm Dennis, lle bu llifogydd mewnol mewn 44 eiddo preswyl a 4 eiddo masnachol gyda sawl eiddo arall yn dioddef llifogydd allanol yn rhannau isaf y dref. Priodolwyd prif ffynhonnell llifogydd i bobl ac eiddo yn y digwyddiad yma i'r rhwydwaith o gyrsiau dŵr cyffredin i'r gogledd o Dreorci. Mae'r cyrsiau dŵr yma mewn ceuffosydd mawr o dan ardal drefol Treorci, gyda llifogydd yn bennaf yn dod o gilfachau cwifer ac argloddiau yn gorlifo.

Disgrifiad o'r Cynllun

Mae'r ardal y dechreuwyd y gwaith ynddi yn rhan o gam cyntaf cynllun lliniaru llifogydd Treorci yn canolbwyntio ar y rhwydwaith o gyrsiau dŵr cyffredin i'r Dwyrain o fynwent Treorci.

Roedd y cynllun lliniaru llifogydd yn ymwneud â **gwella cyflwr strwythurol rhwydweithiau cwlfertau o dan y ddaear**, gwelliannau i'r cilfachau cwlfer a sianeli cwrs dŵr cyffredin cysylltiedig yn Nhreorci, yn benodol cwrs dŵr Nant Tyle Du. Nod y gwelliannau yma oedd **lleihau'r posibilrwydd o fethiant strwythurol** o fewn y rhwydweithiau cwlfertau yn y tymor byr wrth wella effeithlonrwydd hydrologig y cilfachau/sianeli cwifer.

Roedd y cynllun hefyd yn targedu gwaith a oedd yn cynnwys gwelliannau sianel agored, yn ogystal ag uwchraddio tyllau archwilio a wal flaen ar hyd cwrs dŵr Nant Tyle Du o Heol Tyle Du i lawr i ben gogleddol Stryd y Golofn.

Yn rhan o'r cynllun, gosododd y Cyngor dair **gorsaf fonitro teledu cylch cyfyng (TCC)** ar hyd cwrs dŵr Nant Tyle-du a system rhybuddio lefel dŵr yng nghwlfert Nant Tyle-du i roi **rhybuddion ymlaen llaw i garfanau cynnal a chadw'r Cyngor am rwystrau posibl**.

Mae ail gam y gwaith lliniaru llifogydd yn Nhreorci yn mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n ceisio lleihau'r perygl o lifogydd yn y gymuned ymhellach. Mae modd i chi ddysgu rhagor am yr ail gam ar ein tudalen, **yma**.


Buddion y Cynllun



Lleihau perygl llifogydd ar gyfer **92 eiddo**



System rhybudd larwm wedi'i gosod mewn mannau allweddol ar hyd cwrs dŵr Nant Tyle Du




Monitro cilfachau ar hyd cwrs dŵr Nant Tyle Du gyda system TCC






Gosod mesurau rheoli malurion cadarn i leihau'r risg o rwystr gan falurion



Gwell mynediad cynnal a chadw ar gyfer gwaith ar hyd y cwrs dŵr yn y



Cydnherthedd hirdymor i seilwaith y cwlfer ac i'r gymuned i lawr yr afon



Section Co-ordinates

A1	35949.355	107156.146	102.055
A2	35954.588	107156.707	106.023
A3	35970.552	107152.024	100.526
A4	35947.076	107153.401	107.598
A5	35963.242	107156.306	100.338
A6	35943.075	107156.986	104.863
OE1	35943.328	107156.650	104.301
OE2	35943.024	107152.346	100.593
OE3	35946.731	107157.245	107.464
OE4	35943.031	107154.000	107.763



Key

- Site Boundary
- Casting 450mm culvert
- Casting Receiving Well
- Proposed 150mm dia Culvert Bed and surround as specified
- Proposed 150 pipe with Type 2 bed and surround
- Proposed 225 pipe with Type 2 bed and surround
- Proposed Large Capacity Cover PCC gully at SO 050304

- NOTES**
1. Statutory Undertakers approve details reconnector for clarity
 2. For details of Long Section refer to Dwg P348-01-05-02

Project Information

Client: Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Project Name: Treorchy Flood Alleviation Scheme

Phase: Bryn Rhodfa - Phase 1A Proposed Drainage Improvement Proposed Plan

Scale: 1:100

Date: Nov 22

Author: T01

Project Logo: Rhondda Cynon Taf

Project Name: Treorchy Flood Alleviation Scheme

Phase: Bryn Rhodfa - Phase 1A Proposed Drainage Improvement Proposed Plan

Scale: 1:100

Date: Nov 22

Author: T01